13.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Article

# Drama o Bort Talbot yn dychwelyd gyda BANG

Bydd cyfres newydd y ddrama drosedd sydd wedi'i ffilmio ym Mhort Talbot yn dychwelyd i S4C nos Sul, 23 Chwefror.

Mae'r gyfres newydd o **Bang** yn ein taflu ni nôl i'r dref ddiwydiannol union ddwy flynedd wedi digwyddiadau'r gyfres gyntaf. Mae'r gyfres hir ddisgwyliedig yn dilyn DS Gina Jenkins (Catrin Stewart) a Luke Lloyd (Jack Parry-Jones) wrth iddynt geisio canfod dirgelwch cyfres o lofruddiaethau ym Mhort Talbot sy'n gysylltiedig ag achos hynafol o drais.

Taniai'r stori gyda llofruddiaeth dyn 30 oed ar lan y môr y dref. Ond yn fuan iawn, mae'r ditectifs Gina a Luke yn dysgu mai dyma'r llofruddiaeth gyntaf mewn cyfres o lofruddiaethau sy'n gysylltiedig â chyhuddiad hanesyddol.

Ymddengys bod y llofrudd yn targedu'r dynion a gafodd eu henwi gan y fenyw leol Marissa Clarke mewn achos treisio 10 mlynedd ynghynt. Syrthiodd yr achos yn erbyn y dynion, ac ni chawsant eu dwyn o flaen eu gwell.

Mae'r gyfres newydd wedi ei hysgrifennu gan yr enillydd BAFTA, Roger Williams, ac mi gafodd y gyfres gyntaf, sy'n adnabyddus am ei natur ddwyieithog, ei henwi ar restr fer Gwobr Writers' Guild.

Dywedodd Roger Williams: "Wrth wraidd yr ail gyfres hon mae stori am ddial a'r awydd i ddatgelu'r gwir am drosedd hanesyddol. Mae Bang yn cyflwyno'r stori mewn arddull unigryw trwy harneisio dwy iaith, perfformiadau cofiadwy a thirwedd ddiwydiannol syfrdanol tref ddur Port Talbot."

Bang oedd y gyfres ddrama gyntaf gan S4C i gael ei darlledu gan y BBC yn ei ffurf wreiddiol. Ers hynny, mae'r ddrama wedi ei gwerthu i leoliadau ledled y byd, gan gynnwys Gogledd America a Sweden.

Portreadu Luke yn **Bang** oedd y gwaith cyntaf i'r actor Jack Parry-Jones ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ôl yr actor o Ferthyr Tudful, mae natur ddwyieithog y ddrama yn arbennig iawn.

Dywedodd Jack Parry-Jones: "Ail iaith ydi Cymraeg i mi, ond mae actio mewn drama Gymraeg wedi bod yn rhywbeth dwi wedi bod eisiau ei wneud ar hyd fy ngyrfa.

"Dwi mor browd o'r ffaith mai **Bang** oedd y ddrama gyntaf gan S4C gafodd ei darlledu ar y BBC yn ei ffurf wreiddiol, ddwyieithog. Mae hynna'n gam mawr i ni. Dwi'n credu bod gan bobl lai o ofn yr iaith erbyn hyn o'i gymharu â phan oeddwn i'n iau. Mae hi'n gyfnod cyffrous iawn i fod yn Gymro ac i siarad Cymraeg. Gobeithio bod cynhyrchiad dwyieithog fel **Bang** yn arwain y ffordd yn y modd y gall dramâu gael eu cynhyrchu yn y dyfodol."

Mae'r gyfres newydd yn dychwelyd gydag actorion megis David Hayman, Alexander Vlahos a Dyfan Dwyfor yn ymuno â rhai o wynebau'r gyfres ddiwethaf, sy'n cynnwys Jacob Ifan, Catrin Stewart, Jack Parry-Jones, Nia Roberts a Suzanne Packer.

Mae'r gyfres gyntaf o **Bang** ar gael i'w wylio fel bocs set ar S4C Clic.

**Bang**
**Dydd Sul, 23 Chwefror 9.00**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael**
**Ar alw: S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Joio ar gyfer S4C**

13.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# Port Talbot drama to return with a BANG

The long-awaited second series of Port Talbot based crime drama will return to S4C this Sunday, 23 February.

**Bang**, filmed and produced in the industrial town of Port Talbot in South Wales, returns exactly two years after the events of the first series. The second series follows Detective Sergeant Gina Jenkins (Catrin Stewart) and Luke Lloyd (Jack Parry-Jones), as they attempt to solve a series of killings apparently connected to an historic rape allegation.

The story begins with the dramatic murder of a 30-year old man in unusual circumstances on the waterfront of the steel town. Little do detectives Gina and Luke realise that the murder victim is just the first in a series of murders that will go on to be connected to an historic rape accusation.

It transpires there's a serial killer on the loose targeting the men who were named by local woman Marissa Clarke in a rape case 10-years previously. The case against the men fell apart before it went to trial and they were never brought to justice.

Written by BAFTA Cymru award-winner Roger Williams, the first series of **Bang** was shortlisted for the prestigious Writers' Guild Award and is notable for its ground-breaking use of two languages and striking location.

Creator, writer and executive producer of **Bang**, Roger Williams said: "At the heart of this second series is a compelling story about revenge and the desire to reveal the truth about an historic crime. **Bang** delivers the story in an individual and unique style by harnessing two languages, strong performances and the stunning industrial landscape of the steel town of Port Talbot."

As well as attracting critical acclaim, the series also became the first S4C drama to be acquired by the BBC in its original form and has been sold to territories worldwide, including North America and Sweden.

The first series of **Bang**, which aired in 2017, was Merthyr Tydfil born Jack Parry-Jones's first Welsh language appearance, and according to Jack, **Bang**'s bilingual nature is extraordinary.

Jack said: "I'm second language Welsh but playing a Welsh language role has been something I've desperately wanted to do all my career.

"I'm so proud of the fact that **Bang** was the first time an S4C Original drama had been acquired by the BBC in its original form. That's a huge step for us – it's incredible. I think that people are less afraid of the Welsh language compared to how they were when I was younger. It's a really exciting time to be a Welsh speaker and to be Welsh. Hopefully, as a bilingual production, we're leading the way in how dramas can be produced moving forward."

The new series of **Bang** returns to the screen with names such as David Hayman, Alexander Vlahos and Dyfan Dwyfor joining cast regulars Jacob Ifan, Catrin Stewart, Jack Parry-Jones, Nia Roberts and Suzanne Packer.

The first series of **Bang** is available to watch as a box set via S4C Clic.

**Bang**
**Sunday, 23 February 9.00**

**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Joio production for S4C**